SWYDDFA
DYFARNWR ANNIBYNNOL
ADDYSG UWCH

RHEOLAU

Dyma reolau ("Rheolau") y cynllun cwynion myfyrwyr ("y Cynllun") a sefydlwyd gan Swyddfa Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch ("y Cwmni"). Y Cwmni a ddynodir yn weithredwr y Cynllun yn unol â Deddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf"). Mae'r Rheolau'n disodli holl reolau blaenorol yr OIA ac mae grym iddynt o 1 Medi 2006 a byddant yn gymwys i bob cwyn a dderbynnir gan yr OIA o'r dyddiad hwnnw.

Mae rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf ar gyrff llywodraethu pob SAU cymwys yng Nghymru a Lloegr i gydymffurfio â'r Rheolau. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u rheoliadau yn gydnaws â'r Rheolau.

1. Diben

Prif ddiben y Cynllun yw adolygu cwynion nas datryswyd a wnaed gan fyfyrwyr ynghylch gweithredoedd a hepgoriadau SAU a gwneud argymhellion.

2. Cwynion sy'n cael eu cwmpasu

Mae'r Cynllun yn cwmpasu cwynion am weithred neu hepgoriad SAU a wnaed gan:

2.1 fyfyriwr yn yr SAU hwnnw; neu
2.2 fyfyriwr mewn sefydliad arall sy'n dilyn cwrs astudiaeth, neu raglen ymchwil, sy'n arwain at ddyfarnu un o ddyfarniadau'r SAU.

3. Cwynion nad ydynt yn cael eu cwmpasu

Nid yw'r Cynllun yn cwmpasu cwyn i'r graddau:

3.1 ei bod yn ymwneud â derbyn i SAU;
3.2 ei bod yn ymwneud â mater o farn academaidd;
3.3 os yw'r mater yn destun neu'n dod yn destun achos llys neu dribiwnlys nad yw wedi ei atal neu os bu'n destun achos o'r fath ac i'r achos hwnnw derfynu mewn ffordd ar wahân i gael ei dynnu'n ôl neu ei ddirwyn i ben;
3.4 os yw'n ymwneud â mater cyflogaeth myfyriwr;
3.5 os nad yw'r mater y cwynir amdano, ym marn yr Adolygydd, yn cael effaith sylweddol ar yr achwynydd fel myfyriwr;
3.6 os yw'n cael ei drafod (neu wedi ei drafod) o dan unrhyw reolau blaenorol o eiddo'r OIA, neu
3.7 os caiff ei gyflwyno gan gynrychiolwyr personol myfyriwr, ac os na dderbyniodd yr OIA Ffurflen Gais y Cynllun yn ystod oes y myfyriwr.

4. Terfynau Amser a Gweithdrefnau Cwynion Mewnol

4.1 Rhaid i achwynydd yn gyntaf fod wedi dihysbyddu gweithdrefnau cwynion mewnol yr SAU y cwynir yn ei gylch cyn dod â chŵyn ger bron yr OIA. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Adolygydd dderbyn cwyn i'w hadolygu hyd yn oed os nad yw gweithdrefnau mewnol yr SAU wedi eu dihysbyddu os yw ef neu hi yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.
4.2 Fel rheol ni fydd yr OIA yn ystyried cwyn onid yw wedi ei derbyn o fewn tri mis i'r dyddiad y cafodd y gweithdrefnau cwynion mewnol eu dihysbyddu ac eithrio pan fo'r Adolygydd yn ymestyn yr amser oherwydd ei fod neu ei bod yn fodlon bod rheswm da dros wneud hynny.
4.3 Bydd yr SAU, ar ôl i'r gweithdrefnau cwynion mewnol gael eu dihysbyddu, yn anfon llythyr ("Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau") yn syth at y myfyriwr dan sylw yn cadarnhau bod y gweithdrefnau cwynion mewnol wedi eu dihysbyddu fel hynny. Bydd y terfyn amser ym mharagraff 4.2 fel rheol yn dechrau rhedeg o ddyddiad anfon y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.
4.4 Anfonir Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan yr OIA o bryd i'w gilydd.
4.5 Ni fydd yr OIA fel rheol yn ystyried cwyn mewn achosion lle'r anfonwyd y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau dros dair blynedd wedi'r digwyddiad(au) gwreiddiol y cwynir amdano/amdanynt.

5. Derbyn Cwyn

5.1 Rhaid i gŵyn gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig, fel rheol trwy lenwi Ffurflen Gais y Cynllun.

5.2 Bydd yr Adolygydd yn penderfynu a yw cwyn o fewn awdurdodaeth y Cynllun fel y pennir gan y Rheolau hyn, a gall ar unrhyw adeg wrthod y gŵyn os nad oes gan yr OIA yr awdurdod i'w hadolygu.

5.3 Gall yr Adolygydd wrthod cwyn ar unrhyw adeg heb ystyried y rhinweddau'n llawn os yw'r gŵyn, yn ei farn neu yn ei barn, yn wacsaw neu'n flinderus.

6. Gweithdrefnau Adolygu

6.1 Bydd yr Adolygydd yn cynnal adolygiad o'r gŵyn i benderfynu a oes cyfiawnhad drosti yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

6.2 Bydd yr adolygiad fel rheol yn cynnwys adolygu dogfennau a gwybodaeth arall ac ni fydd yr Adolygydd yn cynnal gwrandawiad llafar oni bai ei fod neu ei bod yn yr holl amgylchiadau'n credu bod angen gwneud hynny.

6.3 Dyma fydd y broses arferol ar gyfer ymdrin â chŵyn:

6.3.1 Ar ôl derbyn cwyn bydd yr Adolygydd yn anfon copi o'r gŵyn at yr SAU er gwybodaeth iddo;

6.3.2 Bydd yr Adolygydd yn penderfynu pa wybodaeth bellach (os o gwbl) y mae arno neu arni ei hangen ar gyfer ei adolygiad/hadolygiad; gall hyn gynnwys gofyniad bod yr SAU yn darparu copi o'r wybodaeth a ystyriodd yng ngham terfynol ei weithdrefnau cwyno mewnol (ac unrhyw gofnodion cysylltiedig) ac ar unrhyw adeg gall yr Adolygydd ofyn i'r partïon ateb cwestiynau penodol a/neu roi gwybodaeth ychwanegol;

6.3.3 Pennir natur a rhychwant yr adolygiad yn ôl disgresiwn yr Adolygydd yn unig a gall yr adolygiad gynnwys neu beidio â chynnwys materion y byddai llys neu dribiwnlys yn eu hystyried.

6.3.4 Cyn cyhoeddi Penderfyniad Ffurfiol bydd yr Adolygydd (onid yw'n credu nad oes angen gwneud hynny) yn cyhoeddi penderfyniad drafft (ac unrhyw argymhellion drafft) er mwyn rhoi cyfle i'r partïon gyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw wallau ffeithiol perthnasol y credant sydd wedi eu gwneud.

6.4 Rhaid i'r partïon gydymffurfio'n brydlon ag unrhyw gais rhesymol a chyfreithlon am wybodaeth y gall yr Adolygydd ei gyflwyno yn ymwneud â'r adolygiad.

6.5 Ni chaiff yr Adolygydd ei rwymo gan reolau tystio cyfreithiol na chan benderfyniadau blaenorol yr OIA.

6.6 Gall yr Adolygydd benderfynu cyhoeddi Penderfyniad Ffurfiol ar unrhyw adeg pan fo'n credu bod ganddo/ganddi ddigon o wybodaeth neu ei bod fel arall yn briodol gwneud hynny.

6.7 Er gwaethaf yr uchod gall yr Adolygydd ar unrhyw adeg geisio sicrhau setliad i'r gŵyn sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall (gan gynnwys, â chydsyniad y partïon, trwy benodi cyfryngwr) pryd bynnag y bo'n ystyried hynny'n briodol.

6.8 Gall yr Adolygydd derfynu neu atal ystyried cwyn, fel y bo'n ystyried yn briodol, os yw'n ymddangos i'r Adolygydd,

6.8.1 bod yr SAU wedi ymdrin â'r gŵyn yn foddhaol;

6.8.2 y byddai'n well ystyried y gŵyn mewn fforwm arall;

6.8.3 bod gweithdrefnau'n mynd rhagddynt o fewn yr SAU neu mewn man arall a all fod yn berthnasol i'r gŵyn; neu

6.8.4 bod parti wedi oedi'n afresymol neu wedi ymddwyn yn afresymol mewn modd arall.

7. Y Penderfyniad Ffurfiol ac unrhyw Argymhellion

7.1 Bydd yr Adolygydd yn anfon Penderfyniad Ffurfiol, ac unrhyw Argymhellion y bo'r Adolygydd yn penderfynu eu gwneud, at yr achwynydd a'r SAU cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7.2 Bydd y Penderfyniad Ffurfiol ac unrhyw Argymhellion yn ysgrifenedig a byddant yn cynnwys rhesymau dros y Penderfyniad Ffurfiol a thros unrhyw Argymhellion.

7.3 Wrth benderfynu a oes cyfiawnhad dros gŵyn gall yr Adolygydd ystyried a gymhwysodd yr SAU ei reoliadau ac a ddilynodd ei weithdrefnau yn briodol ai peidio, ac a oedd penderfyniad a wnaed gan yr SAU yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ai peidio.

7.4 Gall yr Adolygydd, lle bo cyfiawnhad dros y gŵyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol, wneud Argymhelliad/Argymhellion y dylai'r SAU wneud rhywbeth neu ymatal rhag gwneud rhywbeth. Gall yr Argymhellion hynny gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

7.4.1 y dylai'r gŵyn gael ei chyfeirio'n ôl at yr SAU am benderfyniad newydd oherwydd nad yw ei weithdrefnau mewnol wedi eu dilyn yn briodol mewn ffordd berthnasol;

7.4.2 y gellid ystyried y gŵyn yn well mewn fforwm arall;

7.4.3 y dylid talu iawndal i'r achwynydd, gan gynnwys, yn ôl disgresiwn yr Adolygydd, swm am anghyfleustra a gofid;

7.4.4 y dylai'r SAU gymryd llwybr gweithredu y mae'r Adolygydd yn ei ystyried yn deg yn yr amgylchiadau;

7.4.5 y dylai'r SAU newid y ffordd y mae'n trafod cwynion;

7.4.6 y dylai'r SAU newid ei weithdrefnau neu ei reoliadau mewnol.

7.5 Mae'r OIA yn disgwyl i'r SAU gydymffurfio'n llawn ac yn brydlon â'r Penderfyniad Ffurfiol ac ag unrhyw Argymhellion sy'n cydfynd ag ef.

7.6 Pan fo Argymhellion yn gofyn i'r SAU ddilyn llwybr gweithredu arbennig disgwylir y bydd yn gwneud hynny o fewn yr amserlen a bennir neu, pan na phennir amserlen, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd yr SAU, os gofynnir iddo wneud, yn adrodd wrth yr Adolygydd ar gydymffurfio o'r fath.

7.7 Rhoddir adroddiad am unrhyw ddiffyg cydymffurfio ag Argymhelliad gan SAU i'r Bwrdd ac fe'i cyhoeddir yn yr Adroddiad Blynyddol.

8. Dyfarnwr Annibynnol a Dirprwy Ddyfarnwr

Penodir y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr gan y Bwrdd ac maent yn atebol iddo. Wrth benderfynu ar unrhyw gwynion dan y Rheolau hyn rhaid i'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr weithredu'n annibynnol ar y Bwrdd, SAU ac achwynwyr. Nid yw'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr yn swyddogion y Cwmni at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau.

9. Y Bwrdd

Sefydlir y Bwrdd yn unol ag Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni (fel y gellir eu newid o bryd i'w gilydd).

10. Swyddogaeth y Bwrdd

10.1 Swyddogaeth y Bwrdd fydd:

- 10.1.1 penodi, cynnal a diogelu annibyniaeth y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr;
- 10.1.2 monitro perfformiad y Cynllun;
- 10.1.3 sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ariannu'n briodol;
- 10.1.4 cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- 10.1.5 pennu graddfa ffïoedd achosion (os oes rhai) a'r tanysgrifiadau i'w codi ar SAU;
- 10.1.6 gwneud ei ddyletswyddau statudol;
- 10.1.7 ystyried a ddylid ymdrin â diffyg cydymffurfio gan SAU ag unrhyw Argymhelliad neu argymhelliad neu gais arall gan y Dyfarnwr Annibynnol neu'r Dirprwy Ddyfarnwr a gyfeiriwyd at y Bwrdd o dan baragraff 11.1 (yn ddarostyngedig i baragraff 7.7), ac os felly, sut y dylid gwneud hynny; a
- 10.1.8 adolygu a, lle bo hynny'n briodol, addasu'r Rheolau hyn o bryd i'w gilydd, yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf.

10.2 Nid yw'r Bwrdd yn ymwneud ag adolygu a phenderfynu ynghylch cwynion unigol.

11. Pwerau a Dyletswyddau Ychwanegol y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr

Bydd gan y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr y pwerau a'r dyletswyddau ychwanegol canlynol:

11.1 (a) Rhaid i'r Dyfarnwr Annibynnol adrodd wrth y Bwrdd am unrhyw ddiffyg cydymffurfio gan SAU â Phenderfyniad Ffurfiol ac unrhyw Argymhellion a, (b) Gall adrodd wrth y Bwrdd am unrhyw ddiffyg cydymffurfio gan SAU ag unrhyw argymhellion neu geisiadau eraill a wneir gan Adolygydd.

11.2 Gall y Dyfarnwr Annibynnol gynnal trafodaethau a chyfnewid memoranda cyd-ddealltwriaeth ag unrhyw gyrff neu unigolion y mae'r Dyfarnwr Annibynnol yn eu hystyried yn briodol ar faterion o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth.

11.3 Rhaid i'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd pan ofynnir iddynt wneud hynny gan roi rhybudd rhesymol, a darparu unrhyw wybodaeth i'r Bwrdd y gall yn rhesymol ofyn amdani.

11.4 Rhaid i'r Dirprwy Ddyfarnwr baratoi bob blwyddyn Gyllideb Flynyddol ddrafft a Chynllun Busnes drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i'w cyflwyno i'r Bwrdd a pharatoi adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd.

11.5 Rhaid i'r Dyfarnwr Annibynnol baratoi bob blwyddyn ei Adroddiad Blynyddol neu ei Hadroddiad Blynyddol (a fydd yn wahanol i adroddiad blynyddol y Cwmni) ar gyflawni swyddogaethau'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr yn ystod y cyfnod adrodd a ddaeth i ben ddiweddaraf. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- (a) cwynion a atgyfeiriwyd o dan y Cynllun;
- (b) y Penderfyniadau a'r Argymhellion a wnaed gan yr Adolygwyr;
- (c) i ba raddau y mae'r Argymhellion a wnaed gan yr Adolygwyr wedi eu dilyn (gan restru unrhyw SAU nad ydynt wedi cydymffurfio ag Argymhelliad);
- (d) y ffordd y mae'r gweithredwr wedi defnyddio'r ffïoedd (os oedd rhai) a dalwyd mewn perthynas â'r Cynllun; ac
- (e) enwau'r SAU hynny sy'n cymryd rhan yn y Cynllun.

11.6 Gall y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr ymgymryd â gwariant at ddibenion swyddogaethau'r Cynllun, yn amodol ar y Gyllideb Flynyddol sy'n gyfredol ar y pryd neu a gymeradwywyd gan y Bwrdd ac i'r graddau y darperir ar gyfer hynny ynddi.

11.7 Gall y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr recriwtio, penodi, hyfforddi, rheoli a diswyddo staff.

11.8 Gall y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr ddirprwyo (ac is-ddirprwyo), yn amodol, lle bo angen, ar gymeradwyaeth y Bwrdd unrhyw un neu rai o'u pwerau a'u dyletswyddau i'r naill a'r llall ac i aelodau eraill o staff y Cynllun ar yr amod eu bod, wrth ddirprwyo unrhyw bwerau a dyletswyddau o'r fath, yn ymarfer pob gofal a medr rhesymol i sicrhau bod y dirprwy yn defnyddio pob cyfryw brŵr ac yn cyflawni pob cyfryw ddyletswydd yn unol â'r safonau a ddisgwylir ganddynt hwy eu hunain.

11.9 Bydd y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr yn pennu telerau ac amodau gwasanaeth/cyflogaeth staff y Cynllun (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd yn achos eu telerau a'u hamodau eu hunain).

11.10 Gall y Dyfarnwr Annibynnol gyhoeddi penderfyniadau unigol a chrynodebau o gwynion ar ffurf ddienw a gwybodaeth ystadegol.

11.11 Gall y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr argymell newidiadau systemig mewn polisi neu weithdrefn yn codi o gwynion a chyhoeddi argymhellion o'r fath.

11.12 Gall y Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr wneud argymhellion o bryd i'w gilydd i SAU er mwyn hyrwyddo'r Cynllun i fyfyrwyr.

12. Taliadau a Ffioedd

12.1 Ni fydd y Cynllun yn codi unrhyw beth ar achwynwyr am ystyried eu cwynion.

12.2 Mae gofyn i bob SAU dalu tanysgrifiad blynyddol llawn a/neu ffi achos, yn seiliedig ar raddfa gyhoeddedig, er mwyn cymryd rhan yn y Cynllun, a bydd y tanysgrifiad yn cael ei bennu gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd. Ni fydd unrhyw ffioedd neu danysgrifiadau sy'n daladwy dan y Cynllun gan sefydliadau sy'n gymwys yn ôl y Ddeddf yn fwy na'r swm yr ymgymerodd y Cwmni ag ef, gan gymryd un flwyddyn gydag un arall, wrth ddarparu'r Cynllun mewn perthynas â'r SAU hynny.

13. Sefydliadau nad ydynt yn gymwys

O bryd i'w gilydd gall yr OIA gyhoeddi rheolau ychwanegol a fydd yn gymwys i Sefydliadau nad ydynt yn gymwys a ymunodd â'r Cynllun â chaniatâd y Bwrdd.

14. Dehongli

Oni fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall bydd y diffiniadau a'r dehongliadau a nodir isod yn gymwys i'r Rheolau hyn:

Ystyr ***"Deddf"*** yw Deddf Addysg Uwch 2004

Ystyr ***"y Gyllideb Flynyddol"*** yw pob cyllideb ariannol flynyddol i'r Cwmni am y cyfnod cyfrifo perthnasol

Ystyr ***"Adroddiad Blynyddol"*** yw pob adroddiad blynyddol ar gyflawniad a swyddogaethau'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Dirprwy Ddyfarnwr yn unol â pharagraff 11.5

Ystyr ***"Bwrdd"*** yw bwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni

Ystyr ***"Cynllun Busnes"*** yw pob cynllun busnes blynyddol ar gyfer y Cwmni am y cyfnod cyfrifo perthnasol

Ystyr ***"Deddf Cwmnïau"*** yw Deddf Cwmnïau 1985

Ystyr ***"cwyn"*** yw cwyn yn unol â pharagraffau 2 a 3 gan gynnwys rhan o gŵyn

Ystyr ***"achwynydd"*** yw myfyriwr neu gyn-fyfyriwr sydd â hawl i ddod â chŵyn o dan y Cynllun

Nid yw ***"llys neu dribiwnlys"*** yn cynnwys y llysoedd neu'r tribiwnlysoedd hynny sy'n rhan fewnol o SAU neu a sefydlwyd yn unol â phwerau SAU

Ystyr ***"Penderfyniad Ffurfiol"*** yw penderfyniad terfynol a gyflwynir gan Adolygydd yn dilyn adolygiad o dan y Rheolau hyn

Ystyr ***"Sefydliad Addysg Uwch"*** neu ***"SAU"*** yw unrhyw un o'r sefydliadau sy'n dilyn yn Lloegr neu Gymru:

(a) prifysgol (boed yn derbyn cymorth ariannol o dan adran 65 yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992") neu beidio) y rhoddir neu y cadarnheir ei hawl i ddyfarniadau grant gan Ddeddf Seneddol, Siarter Frenhinol neu orchymyn o dan adran 76 yn Neddf 1992;

(b) coleg, ysgol neu neuadd gyfansoddol/cyfansoddol neu sefydliad prifysgol arall a ddaw o fewn (a) uchod;

(c) sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch, fel y'i diffinnir gan adran 90(1) yn Neddf 1992;

(d) sefydliad dynodedig, fel y'i diffinnir gan adran 72(3) yn Neddf 1992,

neu Sefydliad nad yw'n gymwys sydd wedi ymuno â'r Cynllun â chaniatâd y Bwrdd

Ystyr ***"gweithdrefnau cwyno mewnol"*** yw'r gweithdrefnau cwyno ac apêl hynny o eiddo SAU sy'n ymwneud â myfyrwyr ac sydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys, ond heb gyfyngiad, weithdrefnau yn ymwneud â chwynion myfyrwyr, apeliadau academaidd, achwyniadau, materion disgyblu a thoriadau ar godau ymddygiad a rheoliadau

Ystyr "***Sefydliad nad yw'n gymwys***" yw sefydliad addysg uwch nad yw'n sefydliad cymwys yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf

Ystyr ***"Argymhelliad"*** yw argymhelliad sy'n cyd-fynd â Phenderfyniad Ffurfiol

Ystyr "***Adolygydd***" yw'r Dyfarnwr Annibynnol neu'r Dirprwy Ddyfarnwr neu unrhyw berson arall y dirprwywyd iddo adolygiad cwyn

Ystyr ***"Ffurflen Gais y Cynllun"*** yw ffurflen gais mewn diwyg a gymeradwywyd gan yr OIA ar gyfer gwneud cwyn o dan y Cynllun

Ystyr ***"myfyriwr"*** yw myfyriwr sydd neu a oedd wedi ei gofrestru/ei chofrestru yn yr SAU y cwynir amdano (neu o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 2.2 sydd neu a oedd wedi ei gofrestru/ei chofrestru yn y sefydliad arall hwnnw)

Mae gair lluosog yn cynnwys yr unigol ac fel arall.

Bydd cyfeiriad at statud yn y Rheolau hyn yn cynnwys cyfeiriad at y statud honno fel y gellir ei haddasu, ei newid, ei hail-ddeddfu neu ei hatodi o bryd i'w gilydd.

15. Newidiadau i'r Rheolau

Gellir newid y Rheolau hyn o bryd i'w gilydd yn unol â pharagraff 10.1.8.

16. Y Gyfraith

Llywodraethir y Rheolau hyn a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

MR/07/06